- 5.4 As Accounting Officer, the Commissioner is responsible for maintaining a sound system of internal control that supports the achievement of their office's policies, aims and objectives. This is done whilst safeguarding the public funds and assets for which they are personally responsible, in accordance with the responsibilities assigned to him in Managing Welsh Public Money (Welsh Government). The use of resources must be regular, have regard to the need for propriety and seek to achieve value for money.
- 5.5 The Permanent Secretary, as the Welsh Government's Principle Accounting Officer has a duty to ascertain that the Future Generations Commissioner has put in place adequate arrangements to ensure that the annual allocation is used with regard to the need for regularity, propriety and value for money.
- 5.6 The Future Generations Commissioner will provide to the sponsorship branch relevant information, for information only and Welsh Government will not seek to influence any of the Commissioner's budgetary decisions. Despite the policy and operational independence of Commissioners, all are funded by public funds which are provided by the Welsh Government. All Commissioners are Accounting Officers, receive Accounting

Officer letters [from HM Treasury] and must attend appropriate training. They are, therefore, personally responsible for the management of the funds allocated to them. The accounts and governance arrangements of all Commissioners must be subject to internal audit and to external audit by the Auditor General for Wales.

6 Deputy Commissioner

- 6.1 Schedule 2 of the Well-being of Future Generations Act requires the Commissioner to appoint a member of staff to be the Deputy Commissioner. The functions of the Commissioner are exercisable by the Deputy Commissioner if, the office of Commissioner is vacant, or the Welsh Ministers are satisfied for any reason the Commissioner is unable to exercise the functions of the Commissioner.
- 6.2 The Commissioner or their Deputy should advise Welsh Government if such circumstances arise.

7 Governance

- 7.1 Commissioners are Corporation Soles and are not, therefore, accountable to a Board of Directors. However, it is advisable for each Commissioner to have access to independent policy advice and to establish Audit Committees consisting of independent members, although the arrangements may vary from Commissioner to Commissioner due to variations in legislation.

The Audit and Risk Assurance Committee of the Commissioner's office

- 7.2 As corporation sole and like other public bodies, it is appropriate that the Commissioner establishes accountability mechanisms. An Audit and Risk Assurance Committee should be established to provide advice and assurance in respect of corporate governance, risk management and control, and financial management within the Commissioner's office, and the adequacy of the internal and external audit arrangements.
- 7.3 The Audit and Risk Assurance Committee should meet at least three times a year (normally quarterly) and comprise solely of non-executive members (i.e. not the Commissioner or his staff). Attendees should include the Commissioner and senior finance officer and others as and when required.
- 7.4 The Audit and Risk Assurance Committee provides the Commissioner with independent scrutiny and strategic advice.

8 External Audit

- 8.1 The Auditor General for Wales is the Commissioner's statutory external auditor appointed by agreement under the Government of Wales Act 2006.

- 8.2 The Commissioner must submit the accounts prepared for a financial year to the Auditor General for Wales no later than 31 August in the following financial year.
- 8.3 The Auditor General for Wales may carry out examinations into the economy, efficiency and effectiveness with which resources have been used in discharging the Commissioner's functions. But the Auditor General is not entitled to question the merits of the policy objectives of the Commissioner.

9 Advisory Panel

- 9.1 Section 26 of the Well-being of Future Generations Act establishes an advisory panel for the Future Generations Commissioner for Wales. This is a panel of advisors who provide the Commissioner with advice on the exercise of their functions.
- 9.2 The statutory members of the panel are listed at section 26(2). The Welsh Ministers may appoint additional members to the advisory panel, these will be known as 'appointed members'. Prior to appointing an appointed member, the Welsh Ministers must consult with the Commissioner and consider any representations made by the Commissioner.
- 9.3 The Welsh Ministers determine the length of time an appointed member is to be appointed to the panel subject to a minimum period of 3 years and a maximum period of 5 years. An appointed member may only be re-appointed once. The appointed member may resign from the panel but must provide a minimum of 3 months' notice in writing to the Welsh Ministers.
- 9.4 The Welsh Ministers may dismiss an appointed member, after consulting with the Commissioner, if they consider that member to be unfit to continue, or unable or unwilling to continue, with the role. Section 28 provides Welsh Ministers with the ability to pay allowances and gratuities to the members of the advisory panel.

10 Annual Report

- 10.1 The 2015 Act requires the Commissioner to produce and publish an annual report ('described by the Commissioner as the performance report') by 31 August in the following year and send a copy to Welsh Ministers. Schedule 2 to the 2015 Act specifies the information to be contained in the annual report and advises that Welsh Ministers must lay a copy of the report before the Senedd. An electronic version should be sent in a timely manner (prior to publication) under embargo to the Sponsorship Branch and Sustainable Futures Division.
- 10.2 This must include
- A summary of the action taken in that financial year in the exercise of the Commissioner functions
 - An analysis of the effectiveness of that action
 - Summary of the Commissioner's work programme

- Commissioner's proposals for a work programme for the following financial year
 - Summary of complaints made.
- 10.3 The report may also include the Commissioners' assessments of the improvements that public bodies should make.
- 10.4 The Commissioners current practice is to combine in their annual report the performance report, accountability report and financial statement.
- 10.5 The Commissioner must publish the annual report no later than 31 August in the following financial year. The Commissioner must send a copy of each annual report to the Welsh Ministers. Welsh Ministers must lay a copy of each annual report sent to them before the Senedd.

11 Future Generations Report

Future Generations Report

- 11.1 Section 22 of Well-being of Future Generations Act requires the Future Generations Commissioner to prepare and publish, by the end of the reporting period, a report containing the Commissioner's assessment of the improvements public bodies should make in order to set and meet well-being objectives in accordance with the sustainable development principle. This must also include other matters. The reporting period begins the day after a Future Trends Report is published by the Welsh Government and ends 1 year before the next Senedd election.
- 11.2 The Commissioner must consult the Welsh Ministers during this period on the preparation of the Future Generations Report.
- 11.3 The Commissioner must send the Welsh Minister a copy of the Future Generations Report. The Welsh Ministers must lay a copy of the report before the Senedd.
- 11.4 The Welsh Ministers may by regulations amend the reporting period (s.23(8)). The Welsh Government will consult with the Commissioner if they are considering amending the reporting period.

12 Statutory Reports of Reviews

- 12.1 Section 20 of the 2015 Act provides the Commissioner with the statutory powers to conduct a review into the extent to which a public body is safeguarding the ability of future generations to meet their needs. The Commissioner must publish a report of the review and send a copy to the Welsh Ministers.

13 Work Programme

- 13.1 The Commissioner has the power to decide how to present and publish their work programme for the coming year, and how they will inform Welsh Ministers and the public as to his progress at the end of each year in their annual report.
- 13.2 The Commissioner's work plan is set by the Commissioner and no area of the work plan requires approval of Ministers. Sponsorship meetings between the Commissioner and the sponsorship branch are an opportunity to raise issues, discuss areas of work and developments.

Collaborative projects and additional funding

- 13.3 The Welsh Government and the Future Generations Commissioner for Wales may collaborate on specific additional projects and activities that complement the shared aim of advancing sustainable development (linked to delivering Welsh Government policy objectives). These projects and activities will be funded separately to the budget allocation.
- 13.4 For such activities, the Commissioner will prepare a funding request via a business case or proposal which will involve engagement of the Welsh Government.
- 13.5 The Commissioner will ensure that additional funding for activities does not adversely affect the delivery of its general duty and powers.
- 13.6 The Welsh Government will aim to confirm in advance the allocation of funding, at least 3 months before the start of a new financial year, to enable the Commissioner to make adequate arrangements and retain qualified staff.

14 Meetings between the Commissioner and Welsh Government

Meetings with Welsh Ministers

Lead Minister

- 14.1 Meetings between the Minister for Social Justice and the Commissioner will take place twice a year, and at other times throughout the year if required.
- 14.2 These meetings offer an opportunity for the Commissioner to discuss their programme of work and any pressing issues with the Minister. Similarly, the meeting provide an opportunity for the Minister to share and discuss their vision and plans for the well-being of future generations agenda.
- 14.3 Dates should be set for the year and will be arranged by the Commissioner's office and Sustainable Futures Division who will liaise with Private Office. The Commissioner's office will send a suggested agenda for the meetings to the Sustainable Futures Division who will consult the Minister.

First Minister and Other Ministers

- 14.4 The Commissioner may wish to meet with other Welsh Ministers during the year. Similarly, the First Minister and/or Welsh Ministers may wish to meet with the Commissioner.

- 14.5 The Lead Minister should be informed; however the Commissioner's office should liaise directly with the relevant private office and/or officials. The Sustainable Futures Division should be informed of any requests to meet other Minister and the First Minister.

Notes and summaries of meetings

- 14.6 A note of the individual meetings between the Commissioner and Welsh Ministers will be agreed between the Commissioner and the respective Minister.
- 14.7 The Welsh Government and the Commissioner will record and provide an annual summary of the meetings between the Future Generations Commissioner and Welsh Ministers.

Commissioner and officials

- 14.8 The primary contact for strategic discussions and other matters raised between the Commissioner and Welsh Government will be with the Director for Continuous Improvement and/or Deputy Director for Sustainable Futures.
- 14.9 Meetings will take place on a regular basis and will be an opportunity for both sides to raise issues, discuss areas of work and developments. Dates should be set in advance for the financial year and will be arranged by the Commissioner's office in co-operation with the Sustainable Futures Division.
- 14.10 The Commissioner and Director for Continuous Improvement will be invited to attend the quarterly meetings (see below)

Meetings between Commissioner's staff and Welsh Government officials

- 14.11 Officials will formally meet on a quarterly basis and at any other time where appropriate.
- 14.12 Dates should be set for the year and will be arranged by the Commissioner's office and Sustainable Futures Division. This will cover standing matters such as the Commissioner's work programme and the Welsh Government's actions to promote sustainable development.
- 14.13 A note of the meeting and actions agreed should be produced following the quarterly official meetings. The taking of notes will be shared between the Commissioner's Office and the Welsh Government. The note takers will be responsible for distributing the noted and any agreed actions within 10 working days.

Format of meetings

- 14.14 Meetings can be online, hybrid or alternate between the Commissioner's office and the Welsh Government offices with environmental and social impact in mind. The agenda will be agreed in advance as far as possible.

Communications / Public Affairs work

Publicity surrounding reports

14.15 Given the Commissioner's independence from the Welsh Government, they are not required to share any statements / press releases relating to a new report by the Commissioner. However, should the Commissioner choose to do this, these will be sent to the Head of Sponsorship Branch and Sustainable Futures Division and to the Welsh Government's Press Office. Copies of any resulting press statements by Welsh Government may also be shared with the Commissioner's office.

Other communications / public affairs work:

14.16 Briefings for Members of the Senedd or Senedd committees do not need to be shared with the Welsh Government or the Commissioner.

14.17 However, should the Commissioner or Welsh Government choose to do this, the Commissioner's Lead Change Maker - Public Affairs or the Deputy Director for Sustainable Futures, will forward the briefings to the Minister for Social Justice, other relevant Welsh Ministers and the Deputy Director for Sustainable Futures.

15 Approvals of Welsh Minister

Financial assistance and acquire or dispose of land

15.1 Under Schedule 2, para 8(2) the Commissioner must not provide financial assistance to any person or acquire or dispose of any interest in land without the approval of the Welsh Ministers. The Commissioner will give the Welsh Government advance notice of such matters as appropriate.

Staff

15.2 Under Schedule 2, para 9 (5) the Commissioner must obtain the approval of the Welsh Ministers for

- The number of staff that may be appointed
- The terms and conditions of service of the staff
- Payments for remuneration to the members of the Commissioner's staff
- Allowances (including travelling and subsistence allowances) and gratuities to the members of the Commissioner's staff
- Payments for pensions of persons who have been members of the Commissioners staff (para 4).

15.3 These provisions operated primarily in the establishment of the Commissioner's office in 2017. The decisions relating to the discharge of the above duties are discussed in the Commissioner's Audit and Risk Committee.

15.4 To facilitate the discharge of these duties, the Welsh Government and the Commissioner agree that,

- The Commissioner will, as part of the statutory estimate process, provide the Welsh Government with a yearly update on current staff numbers and planned recruitment of new staff.
- The Commissioner and the Welsh Government will, every 2 years review the standard terms and conditions of service of staff deployed by the Commissioner.

15.5 This approach will need to avoid unaffordable longer-term commitments. This information should be submitted to the Public Bodies Unit who will seek approval of Welsh Ministers.

16 Relationship management

- 16.1 The Permanent Secretary delegates responsibility for management of relations between the Welsh Government and the Commissioner to the Director for Continuous Improvement. They may in turn require this function to be managed on a day-to-day basis by the Deputy Director for Sustainable Futures and the Public Bodies Unit.
- 16.2 The primary point of contact for the Commissioner and her/his office in dealing with the Welsh Government on policy matters is the Head of Sustainable Development, Sustainable Futures Division.
- 16.3 The primary point of contact for the Commissioner and his office in dealing with the Welsh Government on operational matters is Head of Public Body Governance, Public Bodies Unit. The Public Bodies Unit also liaises with finance colleagues on all matters relating to funding. Changes which could require additional in year funding requests should be discussed in the first instance with Head of Public Body Governance (Sponsorship Branch). They will seek advice from officials in other Welsh Government departments as is necessary and appropriate.
- 16.4 The Sustainable Futures Division and Public Bodies Unit will work together to support the Commissioner's Office in answering queries, resolving issues, providing impartial technical advice to the Commissioner. The approach to meetings is set out in section 14.

17 IT Security

- 17.1 The Commissioner is responsible for maintaining the IT systems of the Commissioner's Office, possessing a security policy, and ensuring a secure IT environment for the operation of his office and handling of data, including personal data. Should the Commissioner's office identify a major security incident, for example attack by malware or breach of data, the Commissioner's Office will need to report the incident to the following:

- the National Cyber Security Centre to complete an online report of the incident (or the NCSC incident helpline - 0300 200 973 if no access to ICT);
- the Police (Action Fraud);
- the Information Commissioner's Office;
- the Future Generations Commissioner for Wales's insurers;
- refer to the National Cyber Security Centre's guide.

17.2 The Commissioner's Office should also make contact as soon as possible with Welsh Government upon discovering an issue, using a secure mechanism e.g. non-work device or phone call with the relationship management team. They will notify Welsh Government IT Security, who will provide tailored advice depending on the nature of the event.

Derek Walker

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol

5 Ebrill 2024

Annwyl Derek

Cyn y sesiwn graffu sydd wedi'i threfnu gyda'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ar 3 Mehefin, byddem yn ddiolchgar pe gallech ddarparu rhywfaint o wybodaeth gychwynnol yn ysgrifenedig ar y canlynol:

Eich blaenoriaethau ar gyfer eich tymor fel Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, gan gynnwys y broses yr aethoch drwyddi i'w cyrraedd;
Unrhyw newidiadau a wnaethoch i strwythurau staffio a ffyrdd o weithio eich swyddfa ers eich penodiad;
A ydych wedi datblygu unrhyw amcanion a/neu ddangosyddion perfformiad allweddol, fel yr argymhellwyd gan y Pwyllgor yn ein hadroddiad cyn penodi;
Sut mae eich swyddfa'n gweithio gyda Llywodraeth Cymru, gan gynnwys a allai'r berthynas hon fod wedi newid ers i chi ddechrau eich swydd a sut.

Edrychaf ymlaen at glywed gennych ac i gwrdd â chi yn bersonol ym mis Mehefin ar gyfer y sesiwn graffu. Byddwn yn ddiolchgar o gael ymateb cyn gynted â phosibl ac erbyn 15 Mai fan bellaf. Os bydd gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch yn uniongyrchol â'r Tîm Clercio i gadarnhau logisteg ar gyfer y cyfarfod.

Yn gywir,



Jenny Rathbone AS

Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol
Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.





Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Jenny Rathbone AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

17 Mai 2024

Annwyl Jenny,

Mae Llywodraeth Cymru yn paratoi i osod rheoliadau i ychwanegu wyth corff cyhoeddus ychwanegol at adran 6(1) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ('y Ddeddf'). Y cyrff cyhoeddus hyn yw Cymwysterau Cymru, Gofal Cymdeithasol Cymru, Addysg a Gwella Iechyd Cymru, Awdurdod Cyllid Cymru, Trafnidiaeth Cymru (Transport for Wales), y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol (Centre for Digital Public Services Ltd), Iechyd a Gofal Digidol Cymru, ac Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru.

Os bydd y rheoliadau'n cael eu pasio gan y Senedd, bydd yr wyth corff cyhoeddus yn ddarostyngedig i ddyletswydd datblygu cynaliadwy a llesiant y Ddeddf o 30 Mehefin 2024.

Cyn gosod y rheoliadau, yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig, rwy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y costau a amcangyfrifir i Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, o ystyried y diddordeb blaenorol gan eich Pwyllgorau.

Mae'r Comisiynydd wedi darparu dadansoddiad wedi'i ddiweddarau o'r costau a amcangyfrifir sy'n gysylltiedig â chyflawni dyletswydd gyffredinol a swyddogaethau statudol y Comisiynydd mewn perthynas â'r wyth corff cyhoeddus ychwanegol. Maent wedi amcangyfrif mai cyfanswm y gost flynyddol o 2024-25 ymlaen yw £120,000 (£15,000 am bob corff cyhoeddus ychwanegol). Yn dilyn trafodaethau fel rhan o'r broses heriol o osod cyllideb ddrafft 2024-25, rwy'n ddiolchgar bod y Comisiynydd wedi cytuno ar y gost amcangyfrifedig hon, a bydd y costau cyfle cysylltiedig yn cael eu talu o gyllideb bresennol y Comisiynydd. Ceir rhagor o fanylion yn y Memorandwm Esboniadol a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol sy'n cyd-fynd â'r rheoliadau.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Ers 2022 pan wnaethom ymgynghori ar y newidiadau hyn, rydym wedi parhau i weithio gyda'r cyrff ychwanegol ac o fis Hydref 2022 mae fy swyddogion wedi darparu cyfleoedd cyfnewid dysgu a gwybodaeth rhwng cymheiriaid i gefnogi'r wyth corff cyhoeddus yn uniongyrchol wrth iddynt baratoi i fod yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd. Rydym yn parhau i weithio gyda'r wyth corff cyhoeddus ychwanegol yn ogystal â'r Comisiynydd ac Archwilydd Cyffredinol Cymru ar y ffordd orau o gefnogi'r cyrff cyhoeddus hyn i wireddu buddion y ddyletswydd llesiant.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink, reading 'Lesley Griffiths'. The signature is written in a cursive, flowing style.

Lesley Griffiths AS/MS

Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddiwylliant a Chyfiawnder Cymdeithasol
Cabinet Secretary for Culture and Social Justice



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: Y Grŵp Rhyngweinidogol ar Ddiogelwch a Mudo

Sarah Murphy AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

SeneddDCC@senedd.cymru

Copi at: Jenny Rathbone AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

16 Mai 2024

Annwyl Sarah

Y Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol: Y Grŵp Rhyngweinidogol ar Ddiogelwch a Mudo

Yn dilyn fy llythyr dyddiedig 30 Ebrill yn eich hysbysu bod cyfarfod o'r Grŵp Rhyngweinidogol ar Ddiogelwch a Mudo wedi'i drefnu ar gyfer dydd Mawrth, 7 Mai, yn anffodus ar y diwrnod hwnnw cawsom wybod gan Lywodraeth y DU bod yn rhaid gohirio'r cyfarfod oherwydd nad oedd Gweinidogion yr Alban ar gael.

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi gofyn am gael aildrefnu'r cyfarfod cyn gynted â phosibl, ac am i'r sgysiau ar lefel swyddogol barhau yn y cyfamser.

Yn anffodus, nid oes dyddiadau wedi'u cynnig eto, ond byddaf wrth gwrs yn rhoi gwybod i'r Pwyllgor maes o law, unwaith y cytunir ar ddyddiad newydd.

Rwyf hefyd yn anfon copi o'r llythyr hwn at Jenny Rathbone AS, Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol.

Yn gywir

Lesley Griffiths AS/MS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddiwylliant a Chyfiawnder Cymdeithasol
Cabinet Secretary for Culture and Social Justice

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 46
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Ein cyf: MA/LG/0937/24

Jenny Rathbone MS
Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol
Senedd Cymru
Caerdydd
CF99 1SN

23 Mai 2024

Annwyl Jenny,

Heddiw rwyf wedi cyhoeddi [diweddariad cynnydd ar Gynllun Dysgu a Gwellu Parhaus Llywodraeth Cymru ar gyfer Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2023-25](#).

Mae'r Cynllun yn nodi amryw o gamau gweithredu a gweithgareddau parhaus sydd wedi'u cynllunio i wella dealltwriaeth a chymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn Llywodraeth Cymru. Cafodd y Cynllun ei lywio gan yr adolygiad adran 20 a gynhaliwyd gan gyn-Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru yn 2022 ac mae'n cyflawni argymhellid yr adolygiad.

Rwy'n falch o roi gwybod ein bod yn parhau i wneud cynnydd ac yn gwneud y gwelliannau angenrheidiol i'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn gweithio. Mae'r Diweddariad ar Gynnydd yn rhoi trosolwg o'r gwersi rydym wedi'u dysgu hyd yma ac yn tynnu sylw at adnoddau a all helpu'r cyrff cyhoeddus ac eraill sy'n defnyddio dull llesiant cenedlaethau'r dyfodol i drefnu a newid eu ffordd o weithio.

Yn gywir,



Lesley Griffiths AS/MS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddiwylliant a Chyfiawnder Cymdeithasol
Cabinet Secretary for Culture and Social Justice

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Jenny Rathbone AS

Cadeirydd, y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

7 Mai 2024

Annwyl Jenny

Diolch am eich llythyr dyddiedig 8 Ebrill ynghylch adroddiad diweddar y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ar ddull iechyd y cyhoedd o atal trais ar sail rhywedd. Rwyf wedi nodi gwybodaeth ychwanegol isod am ymrwymïadau Llywodraeth Cymru i'r argymhellion a amlygwyd yn eich llythyr.

Fel y nododd fy rhagflaenydd yn ei llythyr ar 26 Chwefror, mae'r cynlluniau gweithredu lefel uchel ar gyfer y glasbrint VAWDASV eisoes wedi'u cyhoeddi. Ni fydd y camau gweithredu manwl, a fyddai'n cynnwys manylion yr arweinwyr unigol ar gyfer camau penodol o dan y cynlluniau hyn, yn cael eu cyhoeddi. Fodd bynnag, bydd diweddariad pellach ar gynnydd yn cael ei gyhoeddi ym mis Hydref. Bydd y Cylch Gorchwyl, gan gynnwys yr aelodaeth, ar gyfer y Bwrdd Partneriaeth Cenedlaethol a phob un o'i ffrydiau gwaith, yn cael eu cyhoeddi ar dudalennau gwe Llywodraeth Cymru ym mis Mai.

Adran 3 – Dangosyddion cenedlaethol

Roeddech chi'n holi am y dangosyddion cenedlaethol. Rwyf am dawelu meddwl aelodau'r Pwyllgor drwy egluro bod y dangosyddion cyhoeddedig yn adlewyrchu'r strategaeth bresennol. Mae'r amcanion ar gyfer Strategaeth 2022-2026 bron yn union yr un fath â'r Strategaeth flaenorol ac felly maent yn parhau'n berthnasol. Yr hyn sydd wedi newid yn benodol yw'r mecanweithiau yr ydym yn bwriadu eu defnyddio i weithredu'r Strategaeth ac yn enwedig ein ffocws mwy ar atal. Fel y nodwyd yn flaenorol, her y dangosyddion cyhoeddedig yw nad oeddem wedi gallu datblygu'r mecanweithiau ar gyfer casglu a chyhoeddi data fel y bwriadwyd, oherwydd y pandemig Covid-19. Mae ein gweithgor wedi bod yn datblygu methodolegau i fynd i'r afael â hyn. Yn wir, mae yna heriau o ran dod o hyd i ddata Cymreig cywir ar gyfer rhai o'r dangosyddion.

Bydd diweddariad sylweddol yn cael ei gyhoeddi ym mis Tachwedd, ochr yn ochr â'r Adroddiad Blyneddol VAWDASV statudol. Bydd hyn yn cynnwys cyhoeddi data ar gyfer rhai dangosyddion lle mae data eisoes yn bodoli ar lefel Cymru. Bydd hefyd yn adrodd ar ganlyniad yr adolygiad methodolegol, gan amlinellu sut rydym yn bwriadu mynd i'r afael â'r bylchau ar gyfer y dangosyddion hynny lle mae'n anodd dod o hyd i ddata, neu lle mae angen datblygu a phrofi cwestiynau. Bydd yr adolygiad yn cynnwys ystyried yr amserlenni

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 48
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

cyhoeddi ar gyfer y dangosyddion hyn. Cyn hynny, bydd fy swyddogion yn gweithio'n uniongyrchol gyda rhanddeiliaid ar y setiau data dros fisoedd yr haf.

Mae ffrydiau gwaith glasbrint VAWDASV hefyd, wrth gwrs, yn datblygu camau gweithredu a mentrau ym mhob un o'u meysydd. Rydym wedi paratoi'r ffrydiau gwaith i ystyried sut y gellir mesur effeithiolrwydd y camau hyn fel rhan o'u gwaith a sut mae unrhyw fesurau arfaethedig yn ymwneud â'r dangosyddion presennol. Efallai y byddwn yn ychwanegu at ein cyfres o ddangosyddion mewn ymateb i'r broses hon. Rydym hefyd yn ymwybodol y bydd angen tystiolaeth ansoddol yn ogystal â meintiol arnom i roi darlun cywir o ba mor effeithiol yr ydym wedi bod wrth leihau nifer yr achosion o VAWDASV ac mae hyn yn rhan o'r gwaith cynllunio tystiolaeth yr ydym yn ei gynnwys yn y broses glasbrint.

Yn gysylltiedig â hyn, bydd cynllun tystiolaeth VAWDASV ar gyfer 2024-25 yn cefnogi ymchwil sy'n ymwneud yn bennaf â ffrydiau gwaith y glasbrint a chyflwyno Strategaeth Genedlaethol VAWDASV. Un o'r ystyriaethau fydd sut y gall y cynllun tystiolaeth helpu i fynd i'r afael â'r angen am dystiolaeth gryfach gan Gymru mewn perthynas â rhai o'r dangosyddion.

Argymhelliad 4 - Gwasanaethau therapiwtig arbenigol ar gyfer pob babi, plentyn a pherson ifanc sy'n profi neu'n dyst i drais ar sail rhywedd

Mae anghenion pob plentyn a pherson ifanc yn flaenoriaeth i mi a'r Cabinet cyfan. Hoffwn ailadrodd bod Llywodraeth Cymru yn ariannu gwasanaethau arbenigol i ddarparu cymorth amhrisiadwy sy'n achub bywydau i holl ddioddefwyr VAWDASV, gan gynnwys plant a phobl ifanc. Rydym hefyd yn ariannu timau VAWDASV rhanbarthol, gan gynnwys cynghorwyr rhanbarthol, sydd ag awdurdod datganoledig i gomisiynu gwasanaethau sydd eu hangen arnynt yn seiliedig ar asesiadau o anghenion y boblogaeth, ac yn unol â'r strategaethau VAWDASV rhanbarthol.

Yn y Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Plant, rydym yn defnyddio rhan o'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol – cronfa 5 mlynedd sy'n werth tua £18m y flwyddyn i gyflwyno rhaglen newid tan fis Mawrth 2027 i gefnogi teuluoedd i aros gyda'i gilydd yn ddiogel ac i sicrhau cefnogaeth therapiwtig i blant o bob oed sydd â phrofiad o fod mewn gofal.

Trwy'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol, mae'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol wedi gweithredu ystod o wasanaethau sy'n cefnogi babanod, plant a phobl ifanc sydd mewn gofal neu ar ffiniau gofal, y mae llawer ohonynt wedi profi neu fod yn dyst i drais yn eu bywydau. Er enghraifft, mae'r gwasanaeth MYST yng Ngwent yn darparu gwasanaethau iechyd meddwl arbenigol i blant a phobl ifanc hyd at 21 oed yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Gwent / Aneurin Bevan sy'n derbyn gofal neu'n rhan o wasanaethau cymdeithasol plant, ac sydd ag anghenion iechyd meddwl cymhleth sy'n deillio o drawma cynnar a dwys.

Enghraifft arall yw'r rhaglen MAPPS, yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg. Mae'r rhaglen hon yn darparu 12 sesiwn o therapi i blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal, gan ddadansoddwyr ymddygiad ardystiedig sy'n gallu gweithio gyda nhw i reoli eu hemosiynau, eu hymddygiad, darparu gwaith stori bywyd ac adeiladu perthnasoedd, er mwyn sefydlogi lleoliadau mewn cartrefi preswyl neu gyda gofalwyr maeth. Mae'r holl asesiadau a'r cynlluniau cymorth therapiwtig hyn yn canolbwyntio ar blant, gan gwrdd â gofalwyr, gweithwyr cymdeithasol ac ysgolion yn gyntaf i gael darlun o anghenion y plentyn ac wedyn cynllunio a threfnu ymyriadau therapiwtig yn seiliedig ar yr anghenion hynny

Mae datblygu'r Fframwaith Ymarfer Cenedlaethol yn ganolog i gyflawni'r Rhaglen Trawsnewid ehangach, er mwyn helpu i drosi polisi'n arferion, gwella arferion, sicrhau cysondeb a chyflawni'r set gyntaf o safonau cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau plant yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys *'Llygaid ar y plentyn – y Safon Diogelu Plant'*.

Cynhaliwyd cyfnod o ymgysylltu â rhanddeiliaid ar ddrafft cyntaf y Fframwaith rhwng Tachwedd 2023 a Chwefror 2024. Yn dilyn yr adborth a gafwyd, mae gwaith bellach ar y gweill i ddatblygu drafft diwygiedig dros y misoedd nesaf, i'w rannu ar gyfer ymgysylltu ac adborth ehangach. Disgwylir i'r holl safonau yn y Fframwaith gael eu cydgynhyrchu erbyn diwedd 2024.

Argymhelliad 6 – Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod (FGM)

Yn dilyn adroddiad y Pwyllgor, mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi ysgrifennu at ysgolion i'w hatgoffa o'u dyletswydd orfodol i adrodd am FGM, er mwyn adlewyrchu natur frys argymhelliad y pwyllgor. Mae gwybodaeth hefyd wedi'i rhadadu yn Dysg, sef y cylchlythyr addysg a hyfforddiant swyddogol gan Lywodraeth Cymru.

O ystyried pwysigrwydd y mater hwn, bydd Llywodraeth Cymru yn aildosbarthu'r canllawiau perthnasol a thynnu sylw ato ym mwletin Llywodraethwyr Ysgolion yng Nghymru. Rydym hefyd wrthi'n adolygu'r cyfleoedd sydd ar gael i ni i wella'r mesurau gorfodi.

Cam gweithredu 5 – Addysg Uwch

Rwyf wedi ysgrifennu at fy nghydwethiwr, Ysgrifennydd newydd y Cabinet dros Addysg, Lynne Neagle i dynnu sylw at y materion a godwyd yn eich adroddiad. Rwyf wedi awgrymu y gallai ysgrifennu at sefydliadau addysg uwch ynghylch disgwyliadau Llywodraeth Cymru o ran mynd i'r afael â thrais ar sail rhywedd.

Mae prifysgolion yn gyrrff ymreolaethol ac mae ganddynt eu polisiau a'u mecanweithiau adrodd eu hunain ar reoli digwyddiadau a gofnodwyd. Mae yna [rwydwaith ymchwil](#) sefydledig i ddatblygu a rhannu arferion da, ac mae pob prifysgol yng Nghymru wedi cyhoeddi datganiadau neu ymrwymadau yn flaenorol o ran trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae CCAUC wedi cyhoeddi canllawiau ar fynd i'r afael â VAWDASV, a bydd y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil newydd yn parhau â'r gwaith yn y maes hwn unwaith y bydd yn weithredol yn yr haf.

Edrychaf ymlaen at ymgysylltu â chi ymhellach am hyn yn ystod y ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar 8 Mai.

Cofion gorau



Lesley Griffiths AS/MS

Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddiwylliant a Chyfiawnder Cymdeithasol
Cabinet Secretary for Culture and Social Justice

Lesley Griffiths AS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddiwylliant a Chyfiawnder

8 Ebrill 2024

Annwyl Lesley,

Argymhelliad a cham gweithredu 2: Adroddiad trais ar sail rhywedd

Llongyfarchiadau ar eich penodiad yn Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddiwylliant a Chyfiawnder Cymdeithasol. Rydym yn edrych ymlaen at weithio gyda chi a'ch gwahodd i gyfarfod yn y dyfodol agos.

Yn gynharach eleni, cyhoeddwyd adroddiad gennym: 'Sut y mae'n rhaid i ni i gyd chwarae ein rhan: dull iechyd y cyhoedd o atal yr epidemig trais ar sail rhywedd'.¹ Roedd eich rhagflaenydd yn ymrwymedig iawn i'r mater hwn ac yn ei hymateb i argymhelliad a cham gweithredu 2, roedd ymrwymiad i gyhoeddi'r cynlluniau gwaith a manylion aelodaeth pob un o ffrydiau gwaith y Glasbrint, yn ogystal â chylch gorchwyl y Bwrdd Partneriaeth a'i ffrydiau gwaith. Wrth i'r flwyddyn ariannol ddod i ben, hoffem ofyn am ddiweddariad ar yr ymrwymiad hwn.

Wedi ystyried ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad yn fwy cyffredinol, byddem hefyd yn croesawu eglurhad mewn perthynas â'r isod.

- Argymhelliad 3:** mae'r ymateb ysgrifenedig yn cyfeirio at grŵp sydd â'r gorchwyl o adolygu'r dangosyddion cenedlaethol ar gyfer trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. O ystyried bod y dangosyddion presennol wedi'u mabwysiadu yn 2019, mae'r Aelodau'n pryderu nad ydynt yn cyd-fynd â'r strategaeth ddiweddaraf, sef y Strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol ar gyfer 2022-26. A fydddech cystal â rhoi eglurhad ynghylch pryd y bydd y dangosyddion diwygiedig yn cael eu cyhoeddi? Yn ogystal, sut y bydd y llywodraeth yn sicrhau atebolrwydd a monitro effeithiol ar y strategaeth newydd, yn enwedig os yw'r dangosyddion yn parhau i adlewyrchu'r strategaeth flaenorol?

¹ Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, 'Sut y mae'n rhaid i ni i gyd chwarae ein rhan: dull iechyd y cyhoedd o atal yr epidemig trais ar sail rhywedd', 15 Ionawr 2024

- **Argymhelliad 4:** mae'r ymateb yn disgrifio'r gwaith o ddatblygu Fframwaith Ymarfer Cenedlaethol fel rhan o'r Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Plant, ond nid yw'n glir sut y mae hyn yn ymwneud ag argymhelliad 4. Rydym yn galw am gamau ar fyrder i sicrhau bod gwasanaethau therapi chwim ac arbenigol ar gael i bob baban, plentyn a pherson ifanc sy'n profi trais ar sail rhywedd neu sy'n dyst i drais o'r fath. Hyd y gwelwn, nid oes sôn am unrhyw beth sy'n ymwneud â gwasanaethau therapi arbenigol (h.y. Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasod) yn y Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Plant a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Medi 2023. A fydddech cystal â darparu rhagor o fanylion ac eglurhad ar y pwynt hwn?
- **Argymhelliad 6:** mewn ymateb, mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i ysgrifennu at ysgolion i ailbwysleisio'r rhwymedigaeth i roi gwybod am achosion o anffurfio organau cenhedlu benywod ac yn nodi rôl arolygwyr Estyn. O ystyried pwysigrwydd y mater hwn, a allech roi rhagor o fanylion ynghylch sut y mae'r llywodraeth yn bwriadu gwella mesurau gofodi i sicrhau bod athrawon yn cyflawni eu dyletswydd fandadol i roi gwybod am achosion o anffurfio organau cenhedlu benywod, y tu hwnt i ailbwysleisio pwysigrwydd hyn drwy gyfathrebu'n ysgrifenedig?
- **Cam gweithredu 5:** mewn ymateb, rydych yn nodi y bydd y Gweinidog Addysg yn ysgrifennu at sefydliadau addysg uwch yng Nghymru er mwyn gofyn iddynt gryfhau eu dulliau ataliol o ran trais ar sail rhywedd. Yn sgil adroddiadau diweddar yn y cyfryngau sydd wedi tynnu sylw at drais rhywiol eang ar gampysau prifysgolion a phryderon ynghylch dulliau annigonol o gadw cofnodion, pa sicrwydd allwch chi ei roi o ran diogelwch menywod a merched ym mhrifysgolion Cymru? Sut y bydd y llywodraeth yn monitro ac yn gwerthuso effeithiolrwydd mesurau a gymerir gan Sefydliadau Addysg Uwch i fynd i'r afael â thrais rhywiol?

Byddwch yn ymwybodol bod dadl yn y Cyfarfod Llawn wedi'i threfnu ar gyfer 8 Mai ac felly byddem yn croesawu ymateb cyn y ddadl i alluogi'r Aelodau i fyfyrion ar hyn yn eu cyfraniadau.

Yn gywir,



Jenny Rathbone AS

Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol
Senedd Cymru



Lynne Neagle AS/MS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Cabinet Secretary for Education



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Sarah Murphy AS, Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

8 Mai 2024

Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth: Gweinidogion Cymru a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF

Yn unol â'r Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol, ysgrifennaf atoch i'ch hysbysu fod [Memorandwm cyd-ddealltwriaeth rhwng Gweinidogion Cymru a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF](#) wedi'i gyhoeddi ar 11 Ebrill 2024.

Mae'r Memorandwm yn disgrifio'r berthynas waith rhwng Llywodraeth Cymru a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF. Mae'n nodi'r egwyddorion cyffredinol sy'n sail i ymrwymiad y Partïon ar y cyd i leihau aildroseddu yng Nghymru, a'r gydnabyddiaeth barhaus mai'r ddarpariaeth dysgu a sgiliau sy'n arwain at gyflogaeth gynaliadwy yw un o'r dulliau mwyaf effeithiol o leihau aildroseddu ac atal troseddu. Mae'r Memorandwm yn cynnwys y modd y bydd rhaglenni dysgu a sgiliau i droseddwy yn y ddalfa yn cael eu cefnogi, ac mae hefyd yn nodi sut y dylid sicrhau bod rhaglenni dysgu a sgiliau yn parhau i droseddwy yng Nghymru ar ôl iddynt fod yn y ddalfa.

Rwyf hefyd wedi copïo'r llythyr hwn at aelodau'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, a'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol.

Yn gywir

Lynne Neagle AS/MS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Cabinet Secretary for Education

Y Gwir Anrhydeddus Vaughan Gething AS

Y Prif Weinidog

16 Mai 2024

Annwyl Vaughan,

Cytundeb rhwng y Deyrnas Unedig a Denmarc ar Gyfranogiad Gwladolion y Gwledydd Hyn mewn Rhai Etholiadau os ydynt yn Preswyllo yn Nhiriogaeth un o'r Lleill

Yn ei gyfarfod ar 7 Mai 2024, trafododd fy Mhwyllgor y cytundeb rhyngwladol a nodwyd uchod, a osodwyd yn Senedd y DU ym mis Chwefror. Mae'n debygol y byddwch yn ymwybodol bod y cytundeb yn sicrhau'r hawl i wladolion y DU yn Nenmarc a gwladolion Denmarc yn y DU sefyll a phleidleisio mewn etholiadau lleol.

Nodwyd nad oes angen deddfwriaeth ddatganoledig i weithredu'r cytundeb yng Nghymru, gan fod pob gwladolyn tramor sy'n preswyllo'n gyfreithiol yn gallu sefyll a phleidleisio yn etholiadau lleol Cymru.

Nodwyd hefyd fod y cyn-Brif Weinidog wedi dod â'r mater isod i sylw'r Llywydd yn y bumed Senedd, yn dilyn casgliad cytundebau tebyg rhwng y DU a chenhedloedd eraill yr UE:

"... wrth lunio cytundebau sy'n clymu pob rhan o'r DU i estyn y rhyddfraint i wladolion gwledydd penodol eraill, mae Llywodraeth y DU, mewn gwirionedd, yn cyfyngu ar gymhwysedd deddfwriaethol a gweithredol y sefydliadau datganoledig yn y dyfodol, gan na fyddai modd i Gynulliad Cenedlaethol ac iddo safbwynt gwleidyddol gwahanol ddeddfu i dynnu'r rhyddfraint oddi ar ddinasyddion o'r fath.

Yn achos y cytundebau hyn yn benodol, mae mecanwaith i'w gael ar gyfer addasu'r cytundebau ar hawliau pleidleisio cilyddol, ac rydym wedi pwysleisio bod angen proses ar gyfer gofyn am gael defnyddio'r mecanwaith hwn i ddileu Cymru o gytundeb os bydd Cynulliad Cenedlaethol neu Lywodraeth Cymru arall yn y dyfodol yn mabwysiadu safbwynt polisi sy'n wahanol i'n safbwynt ni."



Byddwn yn ddiolchgar pe gallech gadarnhau erbyn dydd Mercher 29 Mai 2024:

- a yw'r mater a godwyd gan y cyn-Brif Weinidog wedi cael ei ddatrys;
- os nad yw'r mater wedi'i ddatrys, a yw Llywodraeth Cymru wedi ystyried defnyddio unrhyw ddulliau deddfwriaethol, megis cyflwyno diwygiadau i'r Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru), i ofyn am ei benderfyniad;
- a yw Llywodraeth Cymru wedi ystyried defnyddio deddfwriaeth frys i wyrdroi unrhyw gamau deddfwriaethol posibl gan Lywodraeth y DU i ddileu neu gyfyngu ar hawl gwladolion o Aelod-wladwriaeth benodol o'r UE i sefyll a phleidleisio mewn unrhyw etholiadau lleol yn y DU, er mwyn galluogi'r dinasyddion hynny i barhau i gael eu rhyddfrefinio mewn etholiadau datganoledig yng Nghymru.

Bydd fy Mhwyllgor yn gosod ei adroddiad ar y cytundeb maes o law.

Rwyf hefyd yn anfon copi o'r llythyr hwn at y Llywydd, Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol a Chadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai.

Yn gywir,



Sarah Murphy
Cadeirydd

Rt Hon Stephen Crabb MP
Chair, Welsh Affairs Committee

14 May 2024

Dear Stephen

Parc Prison

As you expressed in your supplementary to the urgent question asked by Chris Elmore MP in the Commons Chamber yesterday, the current situation in HM Prison Parc is deeply concerning.

We expressed our concerns at the position that has emerged during our Committee yesterday following correspondence from Adam Price, a member of our Committee.

